# Ysgol Llanhari

Pennaeth I Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☎ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
www.llanhari.com

15fed o Fedi 2022

Annwyl Rieni / Ofalwyr

Wrth inni 'nesu tuag at ddiwedd ail wythnos y tymor, hoffwn ganmol yr holl ddisgyblion am y modd y maent wedi setlo nôl i fywyd ysgol wedi gwyliau'r Haf. Maent wedi ymateb yn arbennig ac wedi ymroi i'w gwersi yn frwdfrydig. Byddwn yn cychwyn gweithgareddau all-gyrsiol yr wythnos nesaf ac anogwn y disgyblion i fanteisio ar y cyfleon sydd ar gael iddynt. Os am wybod mwy am hynt a helynt gwaith a gweithgareddau'r ysgol dilynwch ni ar ein cyfrif trydar ysgol gyfan **@YsgolLlanhari.** Mae gwybodaeth gyffredinol ar gael ar wefan yr ysgol www.llanhari.com.

Ar ddechrau'r tymor, hoffwn dynnu eich sylw at rhai manylion pwysig :

**Staff**
Braf fu croesawu nifer o athrawon newydd i'r adran uwchradd a chynorthwywyr cynradd ac uwchradd :

**Athrawon**

Miss Bronwen Swain (Mathemateg)

Miss Sara Jones (Addysg Gorfforol)

Miss Eleri Lewis (Gwyddoniaeth)

Miss Leah Gravelle (Hanes a Dyniaethau)

Miss Cerys Davies -Harries (Cymraeg)

Miss Nia Squirrell (Cerdd)

Miss Bethany Randell (Drama)

Miss Elinor Lewis (Gwyddoniaeth)

Mr Rhys Rickman (Daearyddiaeth a Dyniaethau)

**Cynorthwywyr**

Ms Ashley Beard

Mr Siôn Rapsey

Mr Rhys Evans

Miss Isabel Jones

Miss Cerys Reynolds

Fel y gwyddoch eisioes, Mr Marc Evans yw'r Dirprwy Bennaeth Gweithredol ac mae Miss Angharad Morgan a Mrs Elin Hobbs (ALENCO) wedi eu penodi yn Benaethiaid Cynorthwyol ac yn aelodau newydd o'r Tim Arwain gan ymuno â Mrs Cath Webb a Mrs Elen George. Yn yr adran uwchradd, hoffwn eich atgoffa o'r Arweinwyr Safonau Cyrhaeddiad :

Mr John Rivers Blwyddyn 7

Mr Rhys James Blwyddyn 8

Miss Lauren Davies Blwyddyn 9

Miss Sian Morris Blynyddoedd 10 ac 11

Miss Beca Creamer Blynyddoedd 12 a 13

Os ydych am gysylltu ag unrhyw aelod o staff yna ffoniwch y dderbynfa neu ebostiwch post@llanhari.com os gwelwch yn dda. Hoffwn atgoffa'r rhieni uwchradd i gysylltu â'r dderbynfa yn hytrach na ffonio / anfon neges destun at eich plentyn yn ystod y dydd. Rydym yn disgwyl i'r disgyblion gadw eu ffonau wedi eu diffodd ar waelod y bag a'u denfyddio o dan gyfarwyddyd athro yn unig.

**Croeso i'r ysgol!**

Cynhaliwyd pnawn agored llwyddiannus yn y dosbarth meithrin ar y 14eg o Fedi ac roedd yn braf iawn croesawu cynifer o ddarpar rieni newydd. Bydd cyfle i ddisgyblion a rhieni Dosbarth Barcud ymweld â'r adran uwchradd ar y **21ain o Fedi** ar y cyd â disgyblion eraill blwyddyn 6 y clwstwr yn **noson agored yr ysgol**. Bydd y noson yn cychwyn am 5 o'r gloch. Edrychwn ymlaen hefyd at eich croesawu chi, rhieni'r cynradd i'r **cyfarfodydd cwrdd â'r athro** hefyd ar yr **21ain o Fedi.**

**Safonau uchel**

Ar ddechrau'r tymor atgoffwyd pob un o'r disgyblion am ein disgwyliadau o ran ymddygiad cadarnhaol, Cymreictod, parch, presenoldeb, ymdrech a dyfalbarhad wrth gwblhau gwaith. Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth yn benodol wrth sicrhau safon uchel o ran y wisg ysgol. Mae'r disgwyliadau wedi eu nodi yn glir ar gyfer y disgyblion uwchradd yn nogfen *Teulu Llanhari.* Mae disgyblion blwyddyn 7 wedi derbyn copi caled yn ogystal a gofynnwn i chi fel rhieni blwyddyn 7 i gofnodi eich bod yn cytuno â'n cytundeb ysgol/cartref.

**Y Chweched Dosbarth**

Rydym yn falch iawn i groesawu nifer fawr o ddisgyblion nôl i flwyddyn 12 ac wrth inni eu llongyfarch ar ganlyniadau TGAU ardderchog yn arholiadau'r Haf, rydym yn dymuno'r gorau iddynt wrth gychwyn ar y cam nesaf yn Ysgol Llanhari.

**Cwricwlwm i Gymru**

Mae disgyblion yr adran gynradd a blwyddyn 7 yn dilyn cwricwlwm newydd *Cwricwlwm i Gymru*. Cewch fwy o fanylion ar wefan yr ysgol ac fe fydd cyfle yn ystod y tymor i gyflwyno mwy o wybodaeth am brofiadau dysgu y disgyblion i chi fel rhieni.

**Alergedd Cnau**

Yn dilyn gohebiaeth yr wythnos ddiwethaf, gofynnwn yn garedig i chi beidio cynnwys cnau ym mhecyn bwyd eich plentyn er mwyn sicrhau diogelwch bob plentyn.

**Arian cinio**

Sicrhewch bod arian cinio yn cael ei dalu yn gyson os gwelwch yn dda yn y cynradd ac yn yr uwchradd, bod gan eich plentyn arian digonol ar ei g/chyfrif. Cysylltwch â ni os gwelwch yn dda os hoffech drafod hyn.

**Calendr eleni**

Wedi ei atodi, mae calendr ysgol gyfan eleni. Hoffwn nodi y bydd diwrnod HMS ychwanegol yn nhymor yr Haf ond rydym yn aros am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru. Ni chyhoeddwyd dyddiadau arholiadau TGAU a Safon Uwch Haf nesaf eto. Pe byddai newid i unrhyw ddyddiad sydd ar y calendr hwn, byddwn yn eich hysbysu mewn da bryd.

Fel Pennaeth newydd Ysgol Llanhari, edrychaf ymlaen at weld ein disgyblion yn ffynnu eleni ac at gydweithio â chi fel rhieni.

Yn gywir

Meinr Thomas

Meinr Thomas
Pennaeth

# Ysgol Llanhari

GORAU GWASANAETH GWAITH

Pennaeth | Headteacher:
**Mrs Meinir Thomas**

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE
☏ 01443 237824 | 🖷 01443 227365 | post@llanhari.com
www.llanhari.com


15th of September 2022

Dear Parents / Carers

As we approach the end of the second week of term, I would like to praise all the pupils for the way they have settled back into school life after the Summer holidays. They have responded particularly well and have worked enthusiastically in lessons. Extra-curricular activities will begin next week and we encourage the pupils to take advantage of the opportunities available to them. For more information on the school's classroom and extra-curricular activities follow us on our school twitter account **@YsgolLlanhari**. General information is available on the school's website www.llanhari.com

At the start of the term, I would like to draw your attention to some important details:

**Staff**
It has been a pleasure to welcome new teachers to the Secondary department and learning support assistants to both the primary and secondary:

**Teachers**

Miss Bronwen Swain (Mathematics)

Miss Sara Jones (Physical Education)

Miss Eleri Lewis (Science)

Miss Leah Gravelle (History and Humanities)

Miss Cerys Davies -Harries (Welsh)

Miss Nia Squirrell (Music)

Miss Bethany Randell (Drama)

Miss Elinor Lewis (Science)

Mr Rhys Rickman (Geography and Humanities)

**Learning Support Assistants**

Ms Ashleigh Beard

Mr Sion Rapsey

Mr Rhys Evans

Miss Isabel Jones

Miss Cerys Reynolds

As you are aware, Mr Marc Evans is the Acting Deputy Headteacher and Miss Angharad Morgan and Mrs Elin Hobbs (ALENCO) have been appointed Assistant Heads and are new members of the Leadership Team joining Mrs Cath Webb and Mrs Elen George. In the secondary department, I would like to remind you of the names of the Attainment Standards Leaders:

Mr John Rivers Year 7

Mr Rhys James Year 8

Miss Lauren Davies Year 9

Miss Sian Morris Years 10 ac 11

Miss Beca Creamer Years 12 a 13

If you wish to contact any member of staff then please phone the reception or email post@llanhari.com I would like to remind the secondary parents to contact reception rather than calling / texting your child during the day. We expect the pupils to keep their phones switched off at the bottom of the bag and only use them under the guidance of a teacher.

**Welcome to the school!**

A successful open afternoon was held in the nursery class on the 14th of September and it was extremely pleasing to be able to welcome so many new prospective parents. There will be an opportunity for Dosbarth Barcud pupils and parents to visit the secondary department on the **21st of September** along with other year 6 pupils from our cluster during the school's open evening. The evening will start at 5 o'clock. We also look forward to welcoming you, to the meet the teacher meetings also on the **21st of September.**

**High standards**

At the beginning of the term all the pupils were reminded of our expectations in terms of positive behaviour, Welshness, respect, attendance, effort and perseverance when completing work. We kindly ask for your support with these matters and specifically in ensuring a high standard in terms of the school uniform. The expectations are clearly stated for the secondary pupils in the *Teulu Llanhari* document. Year 7 pupils have received a hard copy and we ask you as year 7 parents to complete the home/school agreement.

**The Sixth Form**

We are very pleased to welcome a large number of pupils back to year 12 and as we congratulate them on their excellent GCSE results in the Summer, we wish them the best as they embark on a new chapter at Ysgol Llanhari.

**Curriculum for Wales**

Pupils in the primary department and year 7 now follow the new Curriculum for Wales. More details about the curriculu, can be found on the school's website and there will be an opportunity during the term for you to learn more about the pupils' learning experiences since September.

**Nut Allergy**

Following last week's correspondence, we kindly ask you not to include nuts in your child's lunchbox in order to ensure the safety of all children.

**Lunch money**

Please ensure that lunch money is paid regularly in the primary department and in the secondary department, please ensure that your child has sufficient money on his/her account. Please contact us if you would like to discuss this.

**Annual calendar**

Attached is this year's whole school calendar. I would like to note that there will be an additional INSET day in the Summer term but we are awaiting confirmation from the Welsh Government. Should there be a change to any date on this calendar, we will notify you in good time. Dates for GCSE and A Level exams next Summer are yet to be published.

As the new Headteacher of Ysgol Llanhari, I look forward to seeing our pupils flourish this year and to working with you as parents.

Yours sincerely

Meinir Thomas

Meinir Thomas
Headteacher